# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

**(Yn gweithredu gydag Awdurdod Cyflawn)**

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau a oedd yn bresennol:</u>** | **<u>16 Chwefror 2024</u>** |
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd E Latham** |
| **Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:** | **Y Cynghorwyr** A.Dacey, R.G.Jones ac S.Jones |
| **Yn cynrychioli Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** | **Y Cynghorydd** P.Davies ac M.Kearn |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths, H.Jones, C.Phillips, C.Langdon ac N.Jones |

---

1. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

3. **<u>FFIOEDD AR GYFER GWASANAETHAU YN AMLOSGFA MARGAM</u>**

Rhoddodd Swyddogion drosolwg o'r adroddiad am ffioedd ar gyfer gwasanaeth dydd Sadwrn yn Amlosgfa Margam.

Eglurodd swyddogion y bu cynnydd cyson cyffredinol yn y gwasanaeth dros y blynyddoedd, ac mae'r ffigurau diweddaraf dros 2023/24, o fis Ebrill i fis Rhagfyr yn dangos y cafwyd 23 o wasanaethau.

Gofynnodd swyddogion i'r aelodau a oeddent am gadw'r ffi ar gyfer dydd Sadwrn ar y gyfradd gyfredol, cael gwared arni neu ei newid (ei chynyddu neu ei gostwng).

**Penderfynwyd:** bod y Cyd-bwyllgor yn lleihau'r ffi ychwanegol ar gyfer Sadyrnau i £175 a chytuno ar gyfyngu nifer y gwasanaethau dydd Sadwrn i dri, yn amodol ar adolygiad ymhen chwe mis.

## 4. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH A NODWYD YNG NGHYNLLUN BUSNES LEFEL GWASANAETH AMLOSGFA MARGAM 2023/2024

Swyddogion fod gwall yn nheitl yr adroddiad, mae'n ymwneud ag adroddiad a wnaed gan ffederasiwn yr awdurdodau claddu ac amlosgi.

Eglurodd swyddogion y byddai'r adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor yn yr ychydig fisoedd nesaf; mae hyn yn ymwneud â Faithful and Gould ac i roi diweddariad i'r pwyllgor ar y mathau o faterion sy'n cael eu hystyried a bydd wedyn yn penderfynu ar y cyd fel pwyllgor sut i symud ymlaen â hyn.

Gofynnodd yr aelodau a allent gael adroddiad wedi'i ddiweddaru ar y cynlluniau gwaith (adnewyddu) yr oedd y pwyllgor wedi'u hawdurdodi a'u cymeradwyo, ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd:** bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 5. FFIGURAU AMLOSGI AR GYFER MIS GORFFENNAF 2023 I FIS RHAGFYR 2023

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad ar y ffigurau amlosgi ar gyfer mis Gorffennaf 2023 i fis Rhagfyr 2023 gan dynnu sylw at y ffaith bod y ffigurau yr un peth, ac eithrio ar gyfer mis Gorffennaf 2023 pan gafwyd 157 o amlosgiadau.

**Penderfyniad**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**